**festive** *adj* llawen, llon

**festivity** *n* rhialtwch, miri, ysbleddach

**fetch** *vt* cyrchu, hôl, ymofyn, nôl

**fête** *n* gwyl, miri ♦ *vi* gwledda

**feud** *n* cynnen, ffwd

**feudal** *adj* ffiwdal

**feudalism** *n* ffiwdaliaeth

**fever** *n* twymyn, clefyd, gwres

**feverish** *adj* â thwymyn

**few** *adj* ychydig, prin, anaml

**fiancé(e)** *n* darpar-wr/wraig

**fib** *n* anwiredd, celwydd

**fibre** *n* edefyn, ffibr

**fibreglass** *n* ffibr gwydrog

**fickle** *adj* anwadad, oriog, gwamald

**fiction** *n* ffuglen

**fictitious** *adj* ffug, ffugiol

**fiddle** *n* ffidil, crwth ♦ *vi* canu'r ffidil; ffidlan

**fideliety** *n* ffyddlondeb, cywirdeb

**fidget** *vt* ffwdanu, aflonyddu ♦ *n* un ffwdanus, un aflonydd

**field** *n* cae, maes ♦ *vb* maesu

**field marshal** *n* maeslywydd

**field work** *n* gwaith maes

**fiend** *n* cythraul, ellyll, ysbryd drwg

**fierce** *adj* ffyrnig, milain; tanbaid

**fiery** *adj* tanllyd, tanbaid

**fifteen** *adj*, *n* pymtheg

**fifth** *adj*, *n* pumed

**fifty** *adj*, *n* hanner cant, deg a deugain

**fig** *n* ffigysen

**fight** *vb* ymladd, cwffio, brwydro, rhyfela ♦ *n* ymladdfa, brwydr

**fighter** *n* ymladdwr, brwydrwr

**fighting** *n* ymladd

**figment** *n* creadigaeth (*y* dychymyg)

**figurative** *adj* ffigurol, cyffelybiaethol

**figure** *n* ffigur; llun, ffurf ♦ *vb* cyfrif; llunio; ymddangos. **f.** of **speech** troad ymadrodd

**figurehead** *n* arweinydd (mewn enw)

**file** *n* ffeil, rhathell; rhes ♦ *vb* ffeilio, rhathu

**fill** *vb* llenwi ♦ *n* llenwad, llonaid, gwala

**fillet** *n* llain, ffiled. **f.** **steak** *n* stêc ffiled

**filling** *n* llenwad, mewbyn

**filly** *n* eboles

**film** *n* pilen, caenen; ffilm ♦ *vb* ffilmio, gwneud ffilm. **f.** **strip** sribed ffilm

**filter** *n* hidl, hidlydd ♦ *vb* hidlo, ffiltro. **f.** **tip** *n* hidl difaco

**filth** *n* brynti, budreddi, baw

**filthy** *adj* brwnt, budr, aflan

**filtrate** *n* hidlif ♦ *vb* hidlo

**fin** *n* adain, asgell, ffîn

**final** *adj* terfynol, olaf. **semi-f.** cynderfynol

**finale** *n* ffinaie, diweddglô

**finally** *adv* o'r diwedd, yn olaf

**finance** *n* cyllid ♦ *vb* cyllido, codi arian

**financial** *adj* cyllidol, ariannol

**find** *vt* darganfod ♦ *n* darganfyddiad

**finding** *n* darganfyddiad, dedfryd

**fine** *adj* main; mân; gwych; braf

**fine** *n* dirwy ♦ *vt* dirwyo

**finery** *n* gwychder

**finger** *n* bys ♦ *vt* bysio, bodio. **little**  
f. bys bach. **third** f. bys y fodrwy.

**middle** f. y bys canol

**fingerprint** *n* bysbrint, ôl bys

**finicky** *adj* cysetlyd, gorfanwl

**finish** *vb* diwedd, gorffen,  
cwbllhau ♦ *n* diwedd; gorffeniad

**finished** *adj* gorffenedig

**finite** *adj* meidrol

**Finland** *n* y Ffindir

**fir** *n* ffynidwydden

**fire** *n* tân ♦ *vb* tanio, ennyn. **wild** f.  
tân gwyllt. f. **precautions**  
rhagodion tân

**firearm** *n* arf-tân

**firebrigade** *n* brigâd dân

**fire engine** *n* peiriant tân

**fire escape** *n* grisiau tân

**fire-extinguisher** *n* diffoddydd tân

**fireguard** *n* sgrin dân

**fireman** *n* taniwr, diffoddwr tân

**fireplace** *n* lle tân

**fireside** *n* aelwyd

**firewood** *n* coed tân, cynnud

**fireworks** *npl* tân gwyllt

**firm** *n* cwmni, ffyrn ♦ *adj* cadarn,  
diysgog

**firmly** *adv* yn gadarn, yn ddiysgog

**first** *adj* cyntaf, blaenaf, prif ♦ *adv*  
yn gyntaf. f. **aid** *n* cymorth

cyntaf. f. **class** *adj* dosbarth

cyntaf. f. **floor** *n* llawr cyntaf. f.-

**hand** *adj* o lygad y ffynnon. f.-**rate**  
*adj* campus, ardderchog, rhagorol

**fish** *n* pysgodyn, pysgod ♦ *vb*  
pysgota. f. **and chips** pysgodyn a  
sglodion

**fisherman** *n* pysgotwr

**fishing** *n* pysgota

**fishing rod** *n* genwair, gwialen  
bysgota

**fishmonger** *n* gwerthwr pysgod

**fishy** *adj* amheus; pysgodol

**fist** *n* dwrn

**fit** *n* llewyg, ffit, mesur

**fit** *adj* ffit, addas, cymwys,  
gweddus; abl, iach ♦ *vb* ffitio,

gweddu, taro

**fitful** *adj* awadal, gwamal

**fitment** *n* cynhalydd

**fitness** *n* ffitrwydd, addasrwydd

**fitter** *n* ffitiwr

**fitting** *n* ffitiad ♦ *vb* ffitio ♦ *adj*  
priodol, gweddus, addas. **fittings**  
mân daclau, ffitiadau

**five** *adj* pum ♦ *n* pump

**fix** *vb* sicrhau, sefydlu, gosod ♦ *n*  
cyfyngder, cyfyng-gyngor

**fixation** *n* sefydlogiad, sefydledd

**fixed** *n* sefydlog

**fixture** *n* gosodyn, peniant (byd  
chwarae)

**fizz** *vi* sïo

**fizzle** *vb* hisian, sïo

**fizzy** *adj* byrlymog

**flabbergast** *vt* synnu, syfrdanu

**flabby** *adj* llipa, llac, laes

**flag** *n* baner, llluman; fflagen ♦ *vb*  
llumanu; llaesu

**flake** *n* fflaw, caenen; pluen (eira)

**flamboyant** *adj* coegwych

**flame** *n* fflam ♦ *vi* fflamio, fflaglu

**flame-resistant** *adj* gwrthfflam

**flan** *n* fflam

**flank** *n* ystlys, ochr ♦ *vb* ymylu,  
ystlysu

**flannel** *n* gwlanen

**flap** *n* llabed, fflap ♦ *vb* fflapio

**flare** *vb* fflêr, fflach; fflerio, fflachio

**flash** *vb* fflachio ♦ *n* fflach

**flashback** *n* ôl-fflach

**flashlight** *n* fflachlamp

**flashy** *adj* gorwych

**flask** *n* costrel, fflasg

**flat** *n* fflat, gwastad; meddalnod ♦  
*adj* fflat, gwastad, lleddf ♦ *vb*  
fflatio

**flatten** *vb* gwastatau

**flatter** *vt* gwenieithio

**flattery** *n* gweniaith

**flatulence** *n* gwynt (yn y cylla)

**flaunt** *vb* fflawntio, rhodresa

**flavour** *n* blas, cyflas ♦ *vt* blasu,  
cyflasu

**flavouring** *n* cyflasyn  
**flaw** *n* bai, diffyg, nam  
**flax** *n* llin  
**flaxen** *adj* golau, o lin  
**flay** *vt* blingo  
**flea** *n* chwannan  
**flee** *vb* ffoi, cilio, dianc, diflannu  
**fleece** *n* cnu ♦ *vt* cneifio; ysbeilio  
**fleet** *n* llynges, fflyd ♦ *adj* cyflym, buan  
**fleeting** *adj* diflanedig  
**flesh** *n* cig, cnawd. **f. and blood** cig a gwaed. **f. and bones** cnawd ac esgyrn  
**flex** *n* fflecs  
**flexible** *adj* hyblyg, ystwyth  
**flick** *vt* cyffwrdd â blaen chwip, cnithio  
**flier** *n* ehedwr  
**flight** *n* hediad, ffo, rhes  
**flighty** *adj* gwamal, penchwiban  
**flimsy** *adj* tenau, simsan, bregus  
**finch** *vi* cilio yn ôl, gwingo, llwfrhau  
**fling** *vt* tafu, bwrw, lluchio ♦ *n* rhwysg, tafiad  
**flint** *n* callestr, carreg dân, flint  
**flip** *vb* cnithio ♦ *n* cnith  
**flippant** *adj* tafodrydd, gwamal  
**flipper** *n* asgell  
**flirt** *vb* cellwair caru, fflyrtan ♦ *n* fflyrten, fflyrtyn  
**flit** *vi* gwibio  
**float** *n* arnofyn, fflôt, trol ♦ *vb* arnofio  
**flock** *n* diadell, praid ♦ *vi* heidio  
**flog** *vt* fflangellu, chwipio  
**flood** *n* llif, dilyw, cenllif ♦ *vt* llifo, gorlifo  
**floodlight** *n* llifolau ♦ *vb* llifoleuo  
**floor** *n* llawr ♦ *vt* llorio; methu.  
**ground f. daearlawr. first f.** llawr cyntaf  
**flop** *n* methiant, ymollwng  
**flora** *n* flora, planhigion  
**floral** *adj* ffurol  
**florid** *adj* blodeuog

**florist** *n* tyfwr neu werthwr blodau  
**founce** *vi* swalpio, ysboncio ♦ *n* llam, ysbonc  
**flounder** *n* lleden fach ♦ *vb* ymdrybaeddu, ffwndro  
**flour** *n* blawd, can  
**flourish** *vb* blodeuo; ffynnu; ysgwyd ♦ *n* rhwysg; cân cyrn  
**flout** *vb* gwawdio, wfftio, diystyru  
**flow** *vi* llifo, llifeirio ♦ *n* llif, llanw  
**flow chart** *n* siart rhediad  
**flower** *n* blodeuyn, blodyn ♦ *vi* blodeuo. **flowerpot** pot blodau  
**flowery** *adj* blodeuog  
**flu** *n* ffliw, anwydwest  
**fluctuate** *vi* codi a gostwng, amrywio, anwadalu  
**flue** *n* pibell simnai, ffliw  
**fluency** *n* huoddedd, llithrigrwydd  
**fluent** *adj* llithrig, rhugl  
**fluff** *n* ffwcs, fflwff ♦ *vb* bwnglera, methu  
**fluid** *adj* hylif, llifol ♦ *n* hylif, llifydd  
**flake** *n* pry'r afu; fflwcc, lwc  
**fluoride** *n* fflworid  
**flurry** *n* cyffro, ffwdan  
**flush** *n* gwrid; rhuthr dŵr ♦ *adj* cyfwyneb, gorlawn ♦ *vb* gwrido, cochio; gorlifo  
**fluster** *vb* ffwdanu, cyffroi ♦ *n* ffwdan, cyffro  
**flute** *n* ffliwrt  
**flutter** *vb* dychlamu, siffrwd ♦ *n* dychlamiad, siffrwd  
**fly** *n* gwybedyn, cleren, pryf  
**fly** *vb* ehedeg, ehedfan; ffoi ♦ *n* pryf, cleren, copis. **f. into a passion** ymwylltio, gwylltu  
**flying** *adj* hedegog, cyflym  
**flyover** *n* pontfordd, trosffordd  
**foal** *n* ebol, eboles ♦ *vb* bwrw ebol. **in f.** cyfebol  
**foam** *n* ewyn ♦ *vi* ewynnu, glafoerio  
**focus** *n* canolbwynt, ffocws ♦ *vb* canolbwyntio

**fodder** *n* porthiant, ebran  
**foe** *n* gelyn  
**fog** *n* niwl  
**foggy** *adj* niwlog  
**foil** *vt* rhwystro, trechu ♦ *n* ffoil, ffwyll, dalen  
**fold** *n* plyg; corlan ♦ *vb* plygu, corlannu  
**folder** *n* plygell  
**folding** *n* plygiant  
**foliage** *n* dail, deiliant  
**folio** *n* ffolio  
**folk** *npl* pobl, gwerin  
**folklore** *n* llên gwerin  
**folk song** *n* cân werin  
**follow** *vb* canlyn, dilyn  
**follower** *n* dilynwr, canlynwr  
**following** *adj* dilynol, canlynol ♦ *n* dilyniad, canlynwyr  
**folly** *n* ffolineb, ynyfdrwydd  
**fond** *adj* hoff, annwyl  
**fondle** *vt* anwyo, anwesu  
**font** *n* bedyddfaen  
**food** *n* bwyd, ymborth, lluniaeth.  
**tinned f.** bwyd tun. **f. poisoning** *n* gwenwyn bwyd  
**fool** *n* ffwl, ynyfytyn ♦ *vb* ynyfdu, twyllo  
**foolhardy** *adj* rhyfygus  
**foolish** *adj* ffôl, ynyfyd, annoeth  
**foot (feet)** *n* troed; troedfedd ♦ *vb* troedio. **f. and mouth disease** *n* clwyf y traed a'r genau. **f. rot** clwy'r traed  
**football** *n* pêl-droed  
**footballer** *n* peldroediwr  
**footbrake** *n* brêc troed  
**footbridge** *n* pont gerdded, pompren  
**foothold** *n* gafael troed, troedle  
**footing** *n* sylfaen, safle  
**footlights** *npl* golau'r godre  
**footman** *n* gwas (â lifrai)  
**footmark** *n* ôl troed  
**footnote** *n* troednodiad  
**footpath** *n* llwybr troed  
**footprint** *n* ôl troed

**footstep** *n* cam, ôl troed  
**footway** *n* troedffordd  
**footwear** *n* troedwisg  
**for** *prep* i, at, am, dros, er ♦ *conj* canys, oblegid, oherwydd, gan, achos  
**forage** *n* bwyd (anifail), porthiant ♦ *vb* chwilio am fwyd  
**forasmuch** *conj* yn gymaint ag, am, gan, oherwydd  
**foray** *n* cyrch, rhuthr ♦ *vb* gwneud cyrch, rhuthro  
**forbid** *vt* gwahardd, gwarafun, gomedd  
**forbidden** *adj* gwaharddedig  
**force** *n* grym; trais ♦ *vt* gorfodi.  
**centrifugal f.** grym allgyrchol.  
**centripetal f.** grym mewngyrrchol.  
**the forces** *y* lluoedd arfog  
**forceful** *adj* grymus, egniol  
**forceps** *n* gefel fain  
**forcible** *adj* nerthol, effeithiol  
**ford** *n* rhyd ♦ *vt* rhydio  
**fore** *adj* blaen, blaenaf ♦ *adv* ymlaen ♦ *prefix* cyn-, rhag-, blaen-. **to the f.** amlwg, blaenllaw  
**forearm** *n* elin ♦ *vb* rhagarfogio  
**forebode** *vt* rhagargoeli, rhagarwyddo, darogan  
**foreboding** *n* rhagargoel  
**forecast** *n* rhagolygon, rhagolwg ♦ *vb* rhagddweud, darogan  
**forefather** *n* cyndad  
**forefinger** *n* mynegfys  
**forefront** *n* lle blaen ♦ *adj* blaen  
**forego** *vb* hepgor. **foregone** *conclusion* penderfyniad ymlaen llaw  
**foreground** *n* blaendir  
**forehead** *n* talcen  
**foreign** *adj* estron, tramor. **f. affairs** materion tramor  
**foreigner** *n* estron, tramorwr  
**foreman** *n* fforman  
**foremost** *adj* blaenaf ♦ *adv* ym mlaenaf  
**forensic** *adj* fforensig

**forerunner** *n* rhagredegydd  
**foresee** *vt* rhagweld, rhagwybod  
**foreseeable** *adj* rhagweladwy  
**foreshadow** *vb* rhagarwyddo, rhagargoeli  
**foresight** *n* rhagwelediad  
**forest** *n* coedwig, fforest ♦ *vt* coedwigo, fforestu  
**forestall** *vt* achub y blaen  
**forestry** *n* coedwigaeth. **f. commission** Comiswn Coedwigo  
**foretaste** *n* rhagflas ♦ *vb* rhagbrofi  
**foretell** *vt* rhagfynegi, darogan  
**forever** *adv* am byth  
**foreword** *n* rhagair, rhagymadrodd  
**forfeit** *n* fforffed ♦ *vt* fforffedu, colli  
**forge** *n* gefail, ffwrn ♦ *vb* gofannu; ffugio  
**forget** *vt* anghoſio  
**forgetful** *adj* anghofus  
**forgive** *vt* maddau  
**forgiveness** *n* maddeuant  
**forgo** *vt* gadael, hepgor, mynd heb  
**fork** *n* fforch, fforc ♦ *vb* fforchio  
**forlorn** *adj* amddifad, truan, anobeithiol  
**form** *n* ffurf; mainc; ffurflen ♦ *vb* ffurfio. **application f.** ffurflen gais  
**formal** *adj* ffurfiol, defodol  
**former** *adj* blaenaf, blaenorol  
**formerly** *adv* gynt, yn flaenorol  
**formidable** *adj* arswydus, ofnadwy, grymus  
**formula** *n* rheol, fformwla  
**forsake** *vt* gadael, ymadael â, gwrthod, cefnu ar  
**fort** *n* caer, castell, amddiffynfa  
**forte** *n* cryfder ♦ *adj* uchel, cryf  
**forth** *adv* allan, ymlaen. **and so f.** ac felly yn y blaen  
**forthcoming** *adj* ar ddod, gerllaw  
**forthright** *adj* union, plaen  
**forthwith** *adv* yn ddioed, ar unwaith  
**fortify** *vt* cadarnhau, cryfhau

**fortitude** *n* gwroldeb, dewrder  
**fortnight** *n* pythefnos  
**fortnightly** *adj, adv* bob pythefnos  
**fortress** *n* amddiffynfa, caer, castell  
**fortunate** *adj* ffodus, ffortunus  
**fortunately** *adv* yn ffodus, yn lwcus  
**fortune** *n* ffawd; ffortun  
**fortune teller** *n* un sy'n dweud ffortun  
**forty** *adj, n* deugain  
**forum** *n* fforwm  
**forward** *n* blaenwr ♦ *adj* eofn, hy; blaen ♦ *adv* ymlaen ♦ *vb* anfon ymlaen; hwylyso, hyrwyddo.  
**inside f.** mewnw. **wing f.** blaenagellwr  
**fossil** *n* ffosil ♦ *adj* ffosilaidd  
**fossilise** *vb* ffosileiddio  
**foster** *vt* magu, meithrin, coleddu  
**foster-child** *n* plentyn maeth  
**foster-mother** *n* mamfaeth  
**foul** *adj* aflan; annheg; afiach ♦ *n* ffowl(en) ♦ *vb* ffowlio, llychwino.  
**f. play** anfadwaith. **f. throw** camdafu  
**found** *vt* dechrau, sylfaenu, sefydlu  
**foundation** *n* sail, sylfaen  
**founder** *vb* ymddryllio, suddo ♦ *n* sylfaenydd  
**foundry** *n* ffoundri, efaill  
**fountain** *n* ffynnon, ffynhonnell  
**four** *adj, n* pedwar (*f* pedair)  
**foursome** *n* pedwarawd  
**fourteen** *adj, n* pedwar (pedair) ar ddeg  
**fourth** *adj* pedwerydd (*f* pedwaredd)  
**fox** *n* dofedn, ffowlyn, ffowl  
**fox** *n* cadno, llwynog  
**foyer** *n* cyntedd  
**fraction** *n* ffracsiwn. **improper f.** ffracsiwn pendrwm. **vulgar f.** ffracsiwn cyffredin. **proper f.** ffracsiwn bondrwm



**fracture** *n* toriad, drylliad ♦ *vt* torri, dryllio  
**fragile** *adj* brau, bregus  
**fragment** *n* dryll, darn, briwsionyn  
**fragrance** *n* perarogl, persawr  
**frail** *adj* brau, bregus, gwan, eiddil  
**frame** *n* ffrâm; agwedd ♦ *vt* fframio, llunio. **f. of mind** agwedd meddwl  
**framework** *n* fframwaith  
**franchise** *n* etholfraint ♦ *vb* etholfreinio  
**frank** *adj* didwyll, agored  
**frankincense** *n* thus  
**frantic** *adj* cyffrous, gwallgof  
**fraternal** *adj* brawdol  
**fraternity** *n* brawdoliaeth  
**fraud** *n* twyll, hoked  
**fraudulent** *adj* twyllodrus  
**fraught** *adj* llwythog, llawn  
**fray** *n* ymryson, ymgiprys, ffræe, rhaflad ♦ *vb* treulio, rhaflao  
**freak** *n* mympwy, peth od  
**freckle** *n* brych, brychni  
**free** *adj* rhydd; hael; di-dâl, rhad ♦ *vb* rhyddhau  
**freedom** *n* rhyddid, rhyddfraint  
**free expression** *n* rhyddfynegiant  
**freehold** *adj* rhydd-ddaliadol  
**free kick** *n* cic rydd  
**freely** *adv* yn rhydd, yn hael  
**freemason** *n* saer rhydd  
**free trade** *n* masnach rydd  
**free verse** *n* mesur rhydd, y wers rydd  
**free will** *n* ewyllys rydd, o'i fodd  
**freeze** *vb* rhewi, fferru  
**freeze-dry** *vb* sychrewi  
**freezer** *n* rhewgist, rhewgell  
**freezing point** *n* rhewbwynt  
**freight** *n* llwyth llong ♦ *vt* llwytho llong  
**French** *adj* Ffrengig ♦ *n* Ffrangeg.  
**F. beans** *npl* ffa Ffrengig  
**Frenchman** *n* Ffrancwr  
**Frenchwoman** *n* Ffrances  
**frenzy** *n* gorffwylltra, cynddaredd

**frequency** *n* amllder, mynychder  
**frequent** *adj* mynych, aml ♦ *vt* mynychu  
**frequently** *adv* yn fynych, yn aml  
**fresh** *adj* ffres, crai, cri, croyw, newydd  
**freshen** *vb* ffresáu, ireiddio  
**freshness** *n* ffresni, creider, irder  
**fret** *vb* sorri, poeni ♦ *n* soriant, trallod, ffret  
**friar** *n* brawd, mynach  
**friction** *n* ffrithiant, ymrafael  
**Friday** *n* dydd Gwener  
**fridge** *n* oergell, rhewadur  
**friend** *n* cyfaill, ffrind  
**friendly** *adj* cyfeillgar  
**friendship** *n* cyfeillgarwch  
**frieze** *n* ffris  
**fright** *n* dychryn, ofn, braw  
**frighten** *vb* dychrynu, brawychu, codi ofn ar  
**frightful** *adj* dychrynlyd, brawychus  
**frigid** *adj* oer, rhewllyd; oeraidd, oerllyd. **f. zone** *n* cylchfa rew  
**fril** *n* ffril  
**fringe** *n* myl, ymylwe, rhidens ♦ *vb* ymylu, rhidennu. **f. benefits** cilfanteision  
**frisk** *vt* prancio  
**fritter** *vt* afradu, ofera, gwastraffu  
**frivolous** *adj* gwamal; diystyr, disylwedd  
**frizzy** *adj* crychlyd  
**fro** *adv*: **to and f.** yn ôl ac ymlaen  
**frock** *n* ffrog  
**frog** *n* llyffant (melyn), broga; bywyn, ffroga  
**frolic** *vi* prancio, campio ♦ *n* pranc  
**from** *prep* o, oddi, oddi wrth, gan  
**front** *n* wyneb, blaen, ffrynt, talcen ♦ *vb* wynebu ♦ *adj* blaen. **f. door** drws ffrynt. **f. page** tudalen flaen. **f. room** ystafell (ffrynt)  
**frontier** *n* ffin, terfyn, goror  
**frost** *n* rhew  
**frostbite** *n* ewinrhew

**frosty** *adj* rhewllyd  
**froth** *n* ewyn ♦ *vi* ewynnu  
**frown** *vi* cuchio, gwgu ♦ *n* cwch, gwg  
**frozen** *adj* wedi rhewi  
**frugal** *adj* cynnil, darbodus  
**fruit** *n* ffrwyth, ffrwythau. **f. juice** sudd ffrwyth. **f. salad** salad ffrwythau  
**fruiterer** *n* gwerthwr ffrwythau  
**fruitful** *adj* ffrwythlon, toreithiog  
**fruition** *n* ffrwythloniad  
**frustrate** *vt* rhwystro, llesteirio  
**frustration** *n* llesteiriant  
**fry** *vb* ffrio ♦ *n* afu, sil, silod. **small** *f. n* pobl ddibwys  
**frying-pan** *n* ffrimpan, padell ffrio  
**fudge** *n* cyffug  
**fuel** *n* tanwydd; cynnud. **f. cell** cynudydd  
**fugitive** *adj* ar ffo, diflanedig ♦ *n* ffoadur  
**fulfil** *vt* cyflawni  
**fulfilment** *n* cyflawniad  
**full** *adj* llawn, cyflawn ♦ *n* llonaid  
**full-back** *n* cefnwr  
**fuller** *n* pannwr  
**full stop** *n* atalnod  
**fulltime** *adj* llawn amser  
**fully** *adv* yn gyfan gwbl, yn gyflawn, yn hollol  
**fulsome** *adj* ffaidd, diflas (am weniath, etc)  
**fumble** *vb* palfalu, bwnglera  
**fume** *n* tarth, mwg; llid ♦ *vb* mygu; llidio, sorri  
**fun** *n* difyrrwch, digrifwch, hwyf  
**function** *n* swydd, swyddogaeth; ffwythiant (mathemateg)  
**functional** *adj* swyddogaethol, ffwythiannol, defnyddiol  
**fund** *n* cronfa, trysorfa  
**fundamental** *adj* sylfaenol  
**funeral** *n* angladd, cynhebrwng, claddedaeth  
**fungus** *n* ffwng  
**funnel** *n* twmfat, twndis, corn

**funny** *adj* digrif, ysmala; rhyfedd, hynod  
**fur** *n* blew, ffwr; cen. **f. coat** *n* cot ffwr  
**furious** *adj* cynddeiriog, ffyrnig, gwyllt  
**furlong** *n* ystad, wythfed ran milltir  
**furnace** *n* ffwrn, ffwrnais  
**furnish** *vt* dodrefnu, rhoddi  
**furnishings** *npl* dodrefn  
**furniture** *n* dodrefn, celfi  
**furrow** *n* cwys, rhych ♦ *vt* cwysio, rhychu  
**furry** *adj* blewog  
**further** *adj* pellach ♦ *adv* ymhellach ♦ *vt* hyrwyddo. **f. education** addysg bellach  
**fury** *n* cynddaredd, ffyrnigrwydd  
**fuse** *n* ffwsio, toddyn, diogelydd ♦ *vb* ffwsio  
**fuss** *n* ffwdan, helynt, stŵr ♦ *vb* ffwdanu  
**fussy** *adj* ffwdanus  
**futile** *adj* ofer, di-les  
**future** *adj*, *n* dyfodol  
**fuzzy** *adj* blewog, aneglur

## G

**gabble** *vb* bregliach, clebran ♦ *n* cleber  
**gable** *n* piniwn, talcen tŷ  
**gadget** *n* dyfais  
**Gaelic** *n* Gaeleg ♦ *adj* Gaelaidd  
**gaff** *n* bach pysgota  
**gag** *n* smaldod; safnglo ♦ *vb* smalio; safngloi, cau ceg  
**gaiety** *n* llonder, difyrrwch, miri  
**gaily** *adv* yn llawen  
**gain** *vb* ennill, elwa ♦ *n* ennill, elw, budd  
**gait** *n* cerddediad, osgo  
**gale** *n* awel, gwynt cryf; tymestl  
**gall** *n* bustl, chwydd ♦ *vb* dolurio, blino. **g. bladder** *n* coden y bustl.

**g. stones** cerrig y bustl  
**gallant** *adj* gwrol, dewr ♦ *n* carwr  
**gallery** *n* oriel, llofft  
**galley** *n* rhwyflog; gali  
**gallon** *n* galwyn  
**gallop** *n* carlam ♦ *vb* carlamu  
**gallows** *n* crocbren  
**galore** *n, adv* digonedd  
**galvanize** *vt* galfaneiddio, galfanu; symbylu  
**gamble** *vb* hapchwarae, gamblo ♦ *n* gambl  
**game** *n* chwarae, camp; helwriaeth ♦ *adj* calonnog, dewr, glew  
**game-keeper** *n* cipar  
**gammon** *n* palfais (mochyn); ffwlbri, lol  
**gander** *n* ceiliagwydd, clacwydd  
**gang** *n* mintai, torf, haid, gang  
**gangster** *n* troseddwr  
**gangway** *n* tramwyfa, eil, ale; pont  
**gaol** *n* carchar ♦ *vt* carcharu  
**gap** *n* bwlch, adwy  
**gape** *vi* rhythu, syllu ♦ *n* rhythiad  
**garage** *n* modurdy, garej  
**garbage** *n* ysgarthion, ysbwriel, sothach  
**garble** *vt* darnio, llurgunio  
**garden** *n* gardd ♦ *vi* garddio  
**gardener** *n* garddwr  
**gardening** *n* garddwriaeth  
**gargle** *n* golch gwddf ♦ *vb* golchi gwddf  
**garish** *adj* coegwych  
**garland** *n* coronbleth, garlant, talaith  
**garlic** *n* garlleg  
**garment** *n* dilledyn, gwisg  
**garnish** *vt* addurno, harddu  
**garrison** *n* gwarchodlu, garsiwn  
**garrulous** *adj* tafodrydd, siaradus  
**garter** *n* gardas, gardys ♦ *vb* gardysu  
**gas** *n* nwy ♦ *vb* gwenwyno â nwy.  
**g. cooker** ffwrn nwy. **g. fire** tân

nwy. **g. ring** cylch nwy  
**gash** *n* archoll, hollt, hac ♦ *vt* archolli, hacio  
**gasket** *n* gasged  
**gas-mask** *n* mwgwd nwy  
**gasometer** *n* tanc nwy  
**gasp** *vb* ebychu, anadlu'n drwm  
**gate** *n* porth, lliidiart, clwyd, gât, iet ♦ *vb* porthio, porthellu  
**gate-crasher** *n* ymyrrwr  
**gatehouse** *n* porthordy  
**gateway** *n* mynedfa  
**gather** *vb* casglu, cynnull, crynhoi, hel  
**gathering** *n* casgliad, cynulliad  
**gaudy** *adj* coegwych, gorwych  
**gauge** *n* mesur; lled; meidrydd ♦ *vt* mesur, meidryddu  
**Gaul** *n* Gâl  
**Gaulish** *n* Galeg  
**gaunt** *adj* llwm, tenau  
**gauntlet** *n* dyrnfol, maneg ddur. **to throw down the g. herio**  
**gauze** *n* rhwyllen, gaws, meinwe  
**gay** *adj* llon, bywiog, ofer, hoyw  
**gaze** *vi* edrych, syllu, tremio ♦ *n* golwg, trem  
**gazette** *n* newyddiadur (swyddogol)  
**gazetteer** *n* geiriadur daearyddol  
**GCSE** *n* abbr TGAU = Tystysgrif Gyffredin Addysg Uwchradd  
**gear** *n* gêr, offer, taclau ♦ *vb* taclu, harneisio  
**gearbox** *n* gergist, blwch gêr, gerbocs  
**gelignite** *n* geligneit  
**gem** *n* glain, gem, tlws  
**gender** *n* cenedl  
**genealogy** *n* achau; achyddiaeth  
**general** *adj* cyffredin, cyffredinol ♦ *n* cadfridog. **g. election** *n* etholiad cyffredinol  
**generalize** *vb* cyffredinoli  
**generally** *adv* yn gyffredinol  
**generate** *vt* cenedlu, cynhyrchu, generadu

**generation** *n* cenhedliad; cenhedlaeth, to  
**generator** *n* cynhyrchydd; generadur  
**generosity** *n* haelioni  
**generous** *adj* hael, haelionus, haelfrydig  
**genetic** *adj* genetig  
**genetics** *n* geneteg  
**Geneva** *n* Genefa  
**genial** *adj* hynaws, rhadlon, tyner, tirion  
**genital** *adj* cenhedlol. **genitals** *npl* organau cenhedlu  
**genius** *n* athrylith  
**genteel** *adj* bonheddig, boneddigaidd  
**gentle** *adj* bonheddig; mwyn, tyner  
**gentleman** *n* gŵr bonheddig  
**gently** *adv* yn dyner, addfwyn; gan bwyll  
**gentry** *npl* bonedd  
**gents** *npl* toiledau dynion  
**genuine** *adj* dilys, diffuant, pur  
**geography** *n* daearyddiaeth  
**geology** *n* daeareg  
**geometry** *n* geometreg  
**geriatrics** *n* geriatreg  
**germ** *n* hedyd, eginyn, germ  
**German** *adj* Almaenaidd ♦ *n* Almaenwr; Almaeneg. **G. measles** y frech Almeinig  
**Germany** *n* yr Almaen  
**germinate** *vi* egino, atyfu  
**germination** *n* eginiaid, atyfiant  
**gesture** *n* ystum, arwydd, mosiwn  
**get** *vb* cael, caffael, ennill. **to g. on** with it bwrw arni, bwrw iddi  
**geyser** *n* geyser  
**Ghana** *n* Ghana  
**ghastly** *adj* erchyll, gwelw  
**gherkin** *n* gercin  
**ghost** *n* ysbryd, drychiolaeth, bwgan  
**giant** *n* cawr ♦ *adj* cawraidd  
**gibberish** *n* cleber, baldordd  
**gibe** *vb* gwawdio ♦ *n* gwawd

**giblets** *npl* giblets, syrth gŵydd  
**Gibraltar** *n* Gibralter  
**giddiness** *n* pendro  
**giddy** *adj* penfeddw, penchwiban  
**gift** *n* rhodd, dawn, anrheg, gwobr  
**gifted** *adj* dawnus, talentog  
**gigantic** *adj* cawraidd, dirfawr, anferth  
**giggle** *vb* lledchwerthin, gŵrlan  
**gill** *n* tagell; gil, chwarter peint  
**gimmick** *n* gimig  
**gin** *n* jin; hoenyn  
**ginger** *n* sinsir  
**gingerly** *adj, adv* gochelgar, gwyliadwrus  
**gipsy, gy-** *n* sipsi  
**giraffe** *n* siráff  
**girder** *n* trawst  
**girdle** *n* gwregys, rhwymyn ♦ *vt* gwregysu  
**girl** *n* merch, geneth, hogen  
**girlfriend** *n* cariadferch, anwylyd  
**girth** *n* cengl; cylchfesur, cwmpas  
**gist** *n* cnewyllyn pwnc, ergyd, sylwedd  
**give** *vb* rhoddi, rhoi. **g. up** rhoi'r gorau i  
**glacier** *n* rhewlif, iaen, glasier  
**glad** *adj* llawen, llon, balch  
**gladiator** *n* cleddyfwr, ymladdwr  
**gladly** *adv* yn llawen, â phleser  
**glamorous** *adj* swynol, cyfareddol, hudol  
**glamour** *n* swyn, cyfaredd, hud  
**glance** *vb* ciledrych, tremio ♦ *n* cipolwg, trem, cip  
**gland** *n* chwarren, cilchwyrnen, gland  
**glare** *vb* disgleirio; rhythu ♦ *n* disgleirdeb, tanbeidrwydd  
**glass** *n* gwydr; gwydraid; *pl* gwydrau, sbectol  
**glassy** *adj* gloyw, pwl  
**glaze** *vt* gwydro; sgleinio ♦ *n* sglein, gwydredd  
**glazier** *n* gwydrwr  
**gleam** *n* pelydryn, llewyrch ♦ *vi*

pelydru, llewyrchu  
**glean** *vb* lloffa  
**glebe** *n* clastir, tir eglwys  
**glee** *n* llonder, hoen; rhanigan  
**glen** *n* glyn, cwm, dyffryn  
**glib** *adj* llyfn, llithrig, rhugl, ffraeth  
**glide** *vi* lithro, llofo ♦ *n* llithr, llithrad  
**gliding** *n, vb* lithran  
**glimmer** *vi* llewyrchu'n wan ♦ *n* llewyrchyn, llygedyn  
**glimpse** *n* trem, cipolwg  
**glint** *vb* fflachio ♦ *n* fflach, llewyrch  
**glisten** *vi* disgleirio  
**glitter** *vi* tywynnu, pelydru ♦ *n* pelydriad  
**gloat** *vb* llawenhau  
**global** *adj* hollfydol, cyffredinol  
**globe** *n* pêl, pelen  
**gloom** *n* caddug, prudd-der, tywyllwch  
**gloomy** *adj* prudd, digalon, tywyll  
**glorify** *vt* gogoneddu  
**glorious** *adj* gogoneddus  
**glory** *n* gogoniant ♦ *vi* ymfrostio, gorfoleddu  
**gloss** *n* disgleirdeb arwynebol, sglein; glôs, esboniad  
**glossary** *n* geirfa  
**glossy** *adj* llathraidd  
**glove** *n* maneg  
**glow** *vi* twymo, gwrido ♦ *n* gwres, gwrid  
**glower** *vi* cuchio, gwgu  
**glue** *n* glud ♦ *vt* gludio, asio  
**glum** *adj* prudd, digalon, trist  
**glut** *vt* gorlenwi, glythu ♦ *n* gormodedd, gorlawnder  
**glutton** *n* glwth  
**gluttony** *n* glythineb  
**gnarled** *adj* nctiog, ceinciog, garw  
**gnat** *n* gwybedyn, cylionen  
**gnaw** *vb* cnoi, deintio, cnewian  
**gnome** *n* gwireb; ysbryd, coblyn  
**go** *vi* mynd, cerdded, rhodio ♦ *n*

tro  
**goad** *n* swmbwl ♦ *vt* symbylu  
**goal** *n* gôl, nod, bwriad. **g. posts** *npl* pyst gôl. **g. shooter** saethwr  
**goalkeeper** *n* golgeidwad, golwr  
**goat** *n* gafr  
**goblin** *n* ellyll, coblyn, bwgan  
**god** *n* duw. **G.** Duw  
**godchild** *n* mab bedydd, merch fedydd  
**goddess** *n* duwies  
**godfather** *n* tad bedydd  
**godhead** *n* duwdod  
**godly** *adj* duwiol  
**godmother** *adj* mam fedydd  
**godsend** *n* caffaeliad  
**goggles** *npl* gwydrau  
**gold** *n* aur ♦ *adj* aur, euraid  
**golden** *adj* euraid  
**goldfish** *npl* eurbysg, pysgod aur  
**goldsmith** *n* gof aur, eurych  
**golf** *n* golff. **g. links** maes golff. **g. course** *n* maes golffio  
**golfer** *n* golffwr  
**gong** *n* gong, cloch fwyd  
**good** *adj* da, daionus; cryn ♦ *n* da, daioni, lles. **g. morning** bore da. **g. afternoon** prynhawn da. **g. evening** noswaith dda. **g. night** nos da. **g. enough** digon da. **no g.** dim gwerth, da i ddim. **G. Friday** Dydd Gwener y Groglieth. **g. humour** natur dda  
**good-bye** *excl*, *n* da bo chi, yn iach! ffarwel  
**good-looking** *adj* golygus  
**goodly** *adj* hardd, teg  
**good-natured** *adj* hynaws, rhadlon  
**goodness** *n* daioni  
**goods** *npl* nwyddau, eiddo  
**goodwill** *n* ewyllys da; braint (masnachol)  
**goose** (**geese**) *n* gwydd  
**gooseberry** *n* eirinen Fair, gwsbersen  
**gooseflesh** *n* croen gwydd  
**gore** *n* gwaed, gôr ♦ *vb* cornio

**gorge** *n* hafn, ceunant ♦ *vb* safnio, traflyncu  
**gorgeous** *adj* ysblennydd, gwych  
**gorilla** *n* gorila  
**gorse** *n* eithin  
**gory** *adj* gwaedlyd  
**gosling** *n* cyw gŵydd  
**gospel** *n* efengyl  
**gossip** *n* clec, clonc, clebryn, clebran ♦ *vb* clebran, clecian, hel straeon  
**gout** *n* gowt, cymalwst  
**govern** *vb* llywodraethu, rheoli, llywio  
**governess** *n* athrawes  
**government** *n* llywodraeth  
**governor** *n* llywodraethwr  
**gown** *n* gŵn  
**grab** *vb* crafangu, cipio ♦ *n* gwanc, crap  
**grace** *n* gras, rhad, graslonrwydd; gosgeiddrwydd ♦ *vt* harddu, prydfferthu, addurno  
**graceful** *adj* graslon, rhadlon; gosgeiddig, lluniaidd  
**gracious** *adj* graslon, grasol, rhadlon, hynaws  
**grade** *n* gradd, safon ♦ *vb* graddio  
**gradient** *n* graddiant  
**gradual** *adj* graddol  
**gradually** *adv* yn raddol  
**graduate** *vb* graddio, graddoli ♦ *n* gŵr gradd, graddedig  
**graduation** *n* graddedigaeth, graddnod  
**graffiti** *n* graffiti  
**graft** *n* impyn, hunan-les ♦ *vt* impio, grafftio  
**grain** *n* grawn, gronyn; mymryn; graen ♦ *vb* graenu, graenio  
**gram** *n* gram  
**grammar** *n* gramadeg. **g. school** *n* ysgol ramadeg  
**grammatical** *adj* gramadegol  
**granary** *n* ysgubor  
**grand** *adj* mawreddog, ardderchog, crand; prif, uchel

**grandchild** *n* wŵyr, wyres. **great g.** *n* gorwyr(es)  
**granddaughter** *n* wyres  
**grandfather** *n* taid, tad-cu. **great g.** *n* hen daid, hen-dad-cu  
**grandmother** *n* nain, mam-gu  
**grandson** *n* wŵyr  
**granite** *n* gwenithfaen, ithfaen  
**grant** *vt* rhoddi, caniatáu ♦ *n* rhodd, grant. **to take for granted** *cymryd yn ganiataol*  
**granulated** *adj* gronynnog  
**granule** *n* gronynnell  
**grapefruit** *n* grawnffrwyth  
**grapes** *n* grawnwin  
**graph** *n* graff  
**graphic** *adj* graffig; byw  
**graphics** *npl* graffigwaith, graffeg  
**grapple** *n* gaf, gafaelfach ♦ *vb* gafaelyd, mynd i'r afael â  
**grasp** *vb* gafael; amgyffred ♦ *n* gafael, amgyffrediad  
**grasping** *adj* trachwantus  
**grass** *n* glaswellt, porfa  
**grasshopper** *n* ceiliog y rhedyn, sioncyn y gwair  
**grate** *n* grat ♦ *vb* rhygnu, crafellu; merwino  
**grateful** *adj* diolchgar; dymunol  
**grater** *n* grater, crafellydd  
**gratify** *vt* boddio, boddhau  
**grating** *adj* garw, cras ♦ *n* gratin  
**gratitude** *n* diolchgarwch  
**gratuity** *n* cildwrn, rhodd  
**grave** *adj* difrifol, dwys  
**grave** *n* bedd, beddrod  
**gravel** *n* graean, gro, grafel  
**gravestone** *n* beddfaen, carreg fedd  
**graveyard** *n* mynwent  
**gravitate** *vi* disgyrchu, treiglo  
**gravity** *n* disgyrchiant; pwysigrwydd. **centre of g.** *n* craidd disgyrchiant  
**gravy** *n* grefi, isgell, sew  
**graze** *vb* pori; crafu, rhwbio, ysgythru

**grease** *n* saim, iraid ♦ *vt* iro, seimio  
**greaseproof** *adj* gwrthsaim  
**greasy** *adj* seimllyd, ireidlyd  
**great** *adj* mawr. **a g.** many llawer iawn  
**greatly** *adv* yn fawr  
**Greece** *n* Groeg  
**greed** *n* trachwant, gwanc  
**greedy** *adj* barus, trachwantus, gwancus  
**Greek** *n* Groeg; Groegwr ♦ *adj* Groegaidd  
**green** *adj* gwyrdd, glas, ir ♦ *vb* glasu  
**greenery** *n* gwyrddlesni  
**greengrocer** *n* gringroser, gwerthwr llysiau  
**greenhouse** *n* tŷ gwydr  
**Greenland** *n* Grønland  
**greet** *vt* annerch, cyfarch  
**greeting** *n* cyfarchiad  
**grenade** *n* grenâd  
**grey** *adj* llwyd, llwydwyn, glas  
**greyhound** *n* milgi  
**grid** *n* grid, alch. **g. reference** cyfeirnod grid  
**grief** *n* gofid, galar, hiraeth  
**grievance** *n* cwyn  
**grieve** *vb* gofidio, galaru, hiraethu  
**grievous** *adj* gofidus, poenus, blin, difrifol  
**grill** *n* gril, gridyll ♦ *vb* grilio, gridyllu. **mixed g.** gril cymysg  
**grille** *n* gril, dellt  
**grim** *adj* sarrug, milain, difrifol  
**grimace** *n* ystum ♦ *vi* ystumio  
**grimy** *adj* budr, brwnt, diraeln  
**grin** *vb* lledwenu ♦ *n* gwên  
**grind** *vb* malu (ŷd etc); llifo (arf), llifanu  
**grip** *vb* gafael, gwasgu ♦ *n* gafael, crap  
**grisly** *adj* erch, erchyll, hyll, milain  
**gristle** *n* madruddyn, gwythi  
**grit** *n* grit, grud, graean;

pybyrwech  
**groan** *vi, n* griddfan  
**grocer** *n* groser  
**groceries** *npl* nwyddau  
**groin** *n* cesail morddwyd, gwerddyr  
**groom** *n* priodfab; gwastrawd ♦ *vb* trwsio  
**groove** *n* rhigol, rhych ♦ *vt* rhigoli, rhychu  
**grope** *vi* ymbalfalu  
**gross** *n* gros; crynswth ♦ *adj* bras, afednais. **g. profit** elw gros  
**grotto** *n* grotto  
**ground** *n* llawr, daear, tir; sail; gwaelod ♦ *vt* daearu, llorio. **g. floor** *n* daearlawr  
**groundless** *adj* di-sail  
**groundwork** *n* sylfaen, sail  
**group** *n* grŵp, twr, bagad ♦ *vt* grwpio. **discussion g.** cylch trafod  
**grouse** *n* grugiar ♦ *vb* grwgnach  
**grove** *n* llwyn, celli  
**grovel** *vi* ymgreinio  
**grow** *vb* tyfu, prifio, cynyddu, codi  
**grower** *n* tyfwr  
**growing** *adj* yn tyfu  
**growl** *vi* chwyrnu  
**growth** *n* twf, tyfiant, cynnydd  
**grub** *n* pryf, cynrhonyn; bwyd ♦ *vb* dadwreiddio  
**grubby** *adj* budr, brwnt  
**grudge** *vt* gwarafun, grwgnach ♦ *n* dig, cenfigen, cas  
**gruesome** *adj* erchyll, hyll, ffaidd  
**gruff** *adj* sarrug, garw, swta  
**grumble** *vi* grwgnach, tuchan  
**grumpy** *adj* sarrug, diserch  
**grunt** *vi* rhochian ♦ *n* rhoch  
**guarantee** *n* gwarant, ernes ♦ *vt* gwarantu, mechnïo  
**guard** *n* gard, gwarchodydd; sgrin ♦ *vb* gwarchod  
**guarded** *adj* gwyliadurus, gofalus  
**guardian** *n* gwarcheidwad  
**guerilla** *n* herfilwr  
**guess** *vb* dyfalu, dyfeisio ♦ *n*

amcan  
**guesswork** *n* dyfaliad  
**guest** *n* gwestai, gwŵr/gwraig  
 (g)wadd  
**guffaw** *n* crechwen ♦ *vb*  
 crechwenu  
**guidance** *n* cyfarwyddyd  
**guide** *n* arweinydd ♦ *vt* arwain,  
 cyfarwyddo  
**guide book** *n* teithlyfr  
**guide-dog** *n* arweingi  
**guide-lines** *npl* canllawiau  
**guild** *n* cymdeithas, corfforaeth,  
 urdd  
**guile** *n* twyll, dichell, ystryw  
**guillotine** *n* gilotin  
**guilt** *n* euogrydd, bai  
**guilty** *adj* euog  
**guinea pig** *n* mochyn cwta  
**guise** *n* dull, modd, rhith, diwyg  
**guitar** *n* gitâr  
**gulf** *n* gwllf, geneufor; gagedor  
**gull** *n* gwylan; gwirionyn ♦ *vt*  
 twyllo  
**gullet** *n* corn gwddf, sefnig  
**gullible** *adj* hygoelus  
**gully** *n* rhigol, ffos  
**gulp** *vt* llawcian, traflyncu ♦ *n*  
 llawc, traflwnc  
**gum** *n* gwm, glud ♦ *vt* gymio,  
 gludio  
**gumboots** *npl* esgidiau rwber  
**gums** *npl* cig y dannedd,  
 gorcharfanau, crib y dannedd,  
 gorfant  
**gun** *n* gwn, dryll  
**gunner** *n* gynnwr  
**gunpowder** *n* powdr gwn  
**gunshot** *n* ergyd gwn  
**gunsmith** *n* gof gynnu (bach)  
**gurgle** *vi* byrlymu  
**gush** *vb* ffrydio, llifeirio ♦ *n* ffrwd,  
 hyrddwynt  
**gust** *n* chwythwm  
**gusto** *n* awch, blas, sêl  
**gut** *n* perfeddyn, coluddyn ♦ *vt*  
 dberfeddu; difrodi, ysbeilio

**gutter** *n* ffos, cwter, cafn  
**guttural** *adj* gyddfol  
**guzzle** *vb* llawcio, traflyncu  
**gym** *n* campfa  
**gymnasium** *n* gymnasiwm,  
 campfa  
**gymnast** *n* mabolgampwr  
**gynaecologist** *n* gynaecolegydd  
**gynaecology** *n* gynaecoleg  
**gypsy** *n* sipsi  
**gyrate** *vi* troi, chwyrlïo

## H

**ha** *excl* ha!  
**haberdashery** *n* dilladach, siop  
 ddillad  
**habit** *n* arferiad; anian; gwisg ♦ *vt*  
 gwisgo, dilladu  
**habitable** *adj* cyfannedd,  
 cyfanheddol  
**habitat** *n* cartref, cynefin  
**habitation** *n* trigfa, preswylfa  
**habitual** *adj* arferol, cyson  
**habituate** *vt* arfer, cynefino  
**hack** *vb* hacio, torri ♦ *n* hac  
**hack** *n* hurfarch; cystog, slâf  
**hackneyed** *adj* ystrydebol,  
 cyffredin  
**hades** *n* annwfn  
**haddock** *n* corbenfras, hadog  
**haemorrhage** *n* gwaedlif  
**haemorrhoids** *npl* clwyf y  
 marchogion  
**haft** *n* carn  
**hag** *n* gwrach, gwiddon  
**haggard** *adj* gwyllt, curiedig  
**haggle** *vi* bargeinio'n daer  
**hail** *n* cenllysg, cesair ♦ *vb* bwrw  
 cesair  
**hail** *excl* henffych well ♦ *vb*  
 cyfarch, galw  
**hair** *n* gwallt, blew, rhawn. **hair's**  
**breadth** trwch y blewyn. **h.**  
**splitting** holhti blew  
**hairbrush** *n* brws gwallt



**haircut** *n* triniaeth gwallt, toriad, crop

**hairstylist** *n* triniwr gwallt

**hair dryer** *n* sychwr gwallt

**hair spray** *n* chwistrelliad gwallt; chwistrellydd gwallt

**hairly** *adj* blewog

**hake** *n* cegddu

**hale** *adj* iach, cryf, hoenus

**half (halves)** *n* hanner

**half-back** *n* hanerwr

**half-breed** *adj* cymysgryw

**half-dead** *adj* lledfyw

**half-hearted** *adj* diawydd, llugoer

**halfpenny** *n* dimai

**halibut** *n* halibwt

**hall** *n* llys, neuadd, plas; cyntedd

**hallmark** *n* dilysnod

**hallo** *excl* helô

**hallow** *vt* cysegru, sancteiddio

**Halloween** *n* nos Galangaeaf

**hallucination** *n* geuddrych, rhithwelediad

**halo** *n* corongylch, gogoniant, halo, lleugylch

**halt** *vb* sefyll ♦ *n* safiad; gorsaf, arosfa

**halter** *n* cebystr, tennyn

**halve** *vt* haneru

**ham** *n* morddwyd, ham

**hames** *npl* mynci

**hamlet** *n* pentref

**hammer** *n* morthwyl, mwrthwl, gordd ♦ *vb* morthwyllo

**hammock** *n* hamog, gwely crog

**hamper** *vt* rhwystro, llesteirio

**hamstring** *n* llinyn y gar

**hand** *n* llaw; (of clock) bys ♦ *vt* estyn, trosglwyddo. **hand-off** *n* hwp llaw. **in-hand** *adj* ar waith. **to be on h.** bod with law

**handbag** *n* bag llaw

**handbook** *n* llawlyfr

**handbrake** *n* brec llaw

**handcuff** *n* gefyn llaw

**handful** *n* dyrnaid, llond llaw

**handicap** *n* rhwystr, llestair,

anfantaes; blaen. **handicapped children** plant dan anfantaes

**handicraft** *n* crefft

**handiwork** *n* gwaith llaw

**handkerchief** *n* cadach poced, hances, macyn, neisied

**handle** *n* carn, coes, troed, dolen, clust, dwrn ♦ *vt* trin, trafod. **to fly off the h.** colli tymer

**handlebars** *npl* cynn

**handmade** *adj* wedi ei wneud â llaw

**handmaid, -en** *n* llawforwyn

**handrail** *n* canllaw

**handsome** *adj* golygus, hardd, prydferth; hael

**handwriting** *n* llawysgrifen

**handy** *adj* hylaw, deheuig, cyfleus

**hang** *vb* crogi, hongian, dibynnu

**hangar** *n* awyrendy

**hang-gilding** *vb* barcuta

**hangover** *n* blinder ddoe, pen mawr

**hank** *n* cengl

**hanker** *vi* blysiu, crefu, dyheu, hiraethu

**hanky-panky** *n* twyll, dichell ♦ *adj* twyllodrus, dichellgar

**hap** *n* hap, damwain

**haphazard** *adj, adv* damweiniol, ar siawns

**happen** *vi* digwydd

**happily** *adv* yn hapus

**happiness** *n* dedwyddwch, hapusrwydd

**happy** *adj* dedwydd, hapus

**happy-go-lucky** *adj* didaro, di-hid

**harangue** *n* arait, arawd ♦ *vb* areithio

**harass** *vt* poeni, blino, gofidio

**harassment** *n* poen, blinder

**harbour** *n* porthladd, harbwr ♦ *vb* lochesu

**hard** *adj* caled, anodd. **h. of hearing** trwm ei glyw **to be h. done by** cael cam. **h. headed** hirben

**hardboard** *n* caledfwrdd

**harden** *vb* caledu  
**hardener** *n* caledwr  
**hardness** *n* caledwch  
**hardship** *n* caledi  
**hard shoulder** *n* llain galed  
**hard-up** *adj* prin o arian  
**hardware** *n* nwyddau metel  
**hardwood** *n* pren caled  
**hardy** *adj* caled, cryf, gwydn; hy, eofn  
**hare** *n* ysgyfarnog, ceinach  
**harebrained** *adj* byrbwyll, gwyllt  
**harelip** *n* bylchfin, gwefus fylchog  
**hark** *excl* gwranddo! clyw! **h. back** dychwelyd  
**harlot** *n* putain  
**harm** *n* niwed, drwg, cam ♦ *vt* niweidio, drygu  
**harmful** *adj* niweidiol  
**harmless** *adj* diniwed, diddrwg  
**harmonious** *adj* cytûn  
**harmonise** *vb* cytgordio, cytuno  
**harmony** *n* harmoni, cynganedd  
**harness** *n* harnais, gêr ♦ *vt* harneisio  
**harp** *n* telyn ♦ *vi* canu'r delyn  
**harpoon** *n* tryfer ♦ *vt* tryferu  
**harrow** *n* og ♦ *vt* llyfnu; rhwygo, dryllio  
**harrowing** *adj* dychrynlyd, ofnadwy, deifol  
**harry** *vt* difrodi, blino  
**harsh** *adj* garw, gerwin, aflafar  
**harshness** *n* craster, gerwindeb  
**hart** *n* hydd  
**harvest** *n* cynhaeaf ♦ *vt* cynaeafu  
**harvester** *n* cynaeafwr. **combine** **h.** *n* combein  
**hash** *n* briwgg; cymysgfa, cybolfa  
**hasp** *n* hesben  
**haste** *n* brys, hast ♦ *vi* brysio, prysuro  
**hasten** *vb* brysio, prysuro, hastu  
**hastily** *adv* yn frysiog  
**hasty** *adj* brysiog, byrbwyll  
**hat** *n* het  
**hatch** *vb* deor, gori ♦ *n* deoriad

**hatch** *n* gorddrws, rhagddor, dôr  
**hatchery** *n* deorfa  
**hatchet** *n* bwyell (fach)  
**hate** *vt* casáu ♦ *n* cas, casineb  
**hateful** *adj* cas, atgas  
**hatred** *n* cas, casineb, digasedd  
**haughtiness** *n* balchder, traha, ffroenucheledd  
**haughty** *adj* balch, ffroenuchel, trahaus  
**haul** *vb* tynnu, llusgo, halio ♦ *n* dalfa  
**haulage** *n* cludiad, cludiant  
**haulier** *n* haliwr  
**haunch** *n* morddwyd, pedrain  
**haunt** *vt* cyniwair, mynychu; trwblu, aflonyddu ♦ *n* cyniweirfa, cynefin, cyrchfa  
**have** *vt* cael, meddu. **I h. blue eyes** mae llygaid glas gennyf. **I h. a cold** mae annwyd arnaf  
**haven** *n* hafan, porthladd  
**haversack** *n* ysgrepan  
**havoc** *n* hafog, difrod  
**hawk** *n* hebog, cudyll, curyll ♦ *vb* heboca  
**hawk** *vt* gwerthu o dŷ i dŷ, pedlera  
**haws** *npl* crawl y moch, criafol y moch  
**hawthorn** *n* draenen wen  
**hay** *n* gwair  
**hayfever** *n* clefyd y gwair  
**hayrick** *n* tas wair  
**hazard** *n* perygl, llestair, antur ♦ *vt* anturio, peryglu  
**hazardous** *adj* peryglus, enbydus  
**haze** *n* niwl, tarth, tawch  
**hazel** *n* collen ♦ *adj* gwinau golau  
**haziness** *n* aneglurder  
**hazy** *adj* aneglur, niwlog  
**he** *pron* ef, efe; efo, fo, o  
**head** *n* pen ♦ *vb* blaenori, penio  
**headache** *n* dolur (cur) yn y pen, pen tost  
**header** *n* peniad  
**headgear** *n* penffest, penwisg

**heading** *n* pennawd  
**headlamp** *n* lamp fawr  
**headland** *n* pentir, penrhyn; talar  
**headline** *n* pennawd, teitl, hedlin  
**headlong** *adv* pendramwnwgl  
**headmaster** *n* prifathro  
**headmistress** *n* prifathrawes  
**headphone** *n* ffôn pen  
**headquarters** *npl* pencadlys  
**headstrong** *adj* cyndyn  
**headway** *n* cynnydd  
**heal** *vb* iacháu, meddyginiaethu  
**health** *n* iechyd. **h. food shop** *n*  
 siop bwyd iach **H. Service** *n* y  
 Gwasanaeth Iechyd  
**healthy** *adj* iach, iachus  
**heap** *n* crug, pentwr ♦ *vt* crugio,  
 pentyrru  
**hear** *vb* clywed  
**hearing** *n* clyw  
**hearing aid** *n* cymorth clywed  
**hearken** *vi* gwrando, clustfeinio  
**hearsay** *n* sôn, siarad ♦ *adj* o ben i  
 ben, ail-law  
**hearse** *n* hers  
**heart** *n* calon  
**heart-ache** *n* ing, dolor calon  
**heart attack** *n* trawiad  
**heartburn** *n* dŵr poeth  
**hearten** *vb* calonogi  
**hearth** *n* aelwyd  
**heartland** *n* perffeddwlad  
**heartly** *adj* calonnog, cynnes  
**heat** *n* gwres, poethder, (*sport*)  
 rhagras ♦ *vb* twymo, poethi  
**heater** *n* gwresogydd  
**heath** *n* rhos, rhostir  
**heathen** *adj* paganaidd ♦ *n* pagan  
**heather** *n* grug  
**heating** *n* gwres  
**heave** *vb* codi, dyrchafu,  
 chwyddo; taflu ♦ *n* hwb  
**heaven** *n* nef, nefoedd  
**heavenly** *adj* nefol, nefolaidd  
**heavily** *adv* yn drwm, yn drymaidd  
**heavy** *adj* trwm, trymaidd,  
 trymlyd

**heavyweight** *n* (*SPORT*) pwysau  
 trwm  
**Hebrew** *n* Hebrewr; Hebraeg ♦ *adj*  
 Hebraeg; Hebreig  
**heckle** *vb* ymyrryd  
**hectare** *n* hectar  
**hedge** *n* clawdd, gwrych, perth  
**hedghog** *n* draenog  
**heed** *vt* ystyried, talu sylw ♦ *n*  
 ystyriaeth  
**heel** *n* sawdl ♦ *vb* sodli  
**heifer** *n* anner, heffer, treisiad  
**height** *n* uchder, uchelder, taldra  
**heinous** *adj* dybryd, anfad, ysgeler  
**heir** *n* etifedd, aer  
**heirss** *n* etifeddes, aeres  
**helicopter** *n* hofrennydd  
**hell** *n* uffern  
**hellish** *adj* uffernol  
**hello** *excl* helô!, hylô!, clyw!,  
 gwrando!  
**helm** *n* llyw; llywyddiaeth  
**helmet** *n* helm  
**help** *vt* helpu, cymorth,  
 cynorthwyo ♦ *n* help, cymorth,  
 cynhorthwy  
**helper** *n* cynorthwywr, helpwr  
**helpful** *adj* defnyddiol,  
 cymwynasgar, gwasanaethgar,  
 buddiol  
**helping** *n* dogn, cyfran (o fwyd)  
**helpless** *adj* diymadferth  
**helter-skelter** *adv* blith-draphlith  
**hem** *n* hem, ymyl ♦ *vt* hemio  
**hemi-** *prefix* hanner  
**hemisphere** *n* hemisffer  
**hemlock** *n* cegid  
**hemp** *n* cywarch  
**hen** *n* iâr  
**hence** *adv* oddi yma ♦ *excl* ymaith!  
**henceforth, -forward** *adv* rhag  
 llaw, mwyach, o hyn ymlaen  
**henchman** *n* gwas, canlynwr,  
 cefnogydd  
**hepatitis** *n* llif yr afu, hepatitis  
**her** *pron* ei, hi, hithau  
**herald** *n* herald ♦ *vt* cyhoeddi;

rhagflaenu  
**herb** *n* llysieuyn, sawr-lysieuyn  
**herbal** *adj* llysieuol  
**herbicide** *n* llyslleiddiad  
**herd** *n* gyr, cenfaint, gre ♦ *vb* heidio  
**here** *adv* yma  
**hereditary** *adj* etifeddol  
**heredity** *n* etifeddeg  
**heresy** *n* heresi, gau athrawiaeth  
**heretic** *n* heretic, camgredwr  
**heritage** *n* etifeddiaeth, treftadaeth  
**hermit** *n* meudwy  
**hernia** *n* bors, hernia, torllengig  
**hero** *n* arwr, gwron  
**heroic** *adj* arwrol  
**heroine** *n* arwres  
**heron** *n* creyr, crychydd  
**herring** *n* pennog, ysgadenyn  
**hesitant** *adj* petrusgar  
**hesitate** *vi* petruso  
**hesitation** *n* petruster  
**heterodox** *adj* anuniongred  
**heterodoxy** *n* anuniongrededd  
**heterogeneous** *adj* anghydryw, afryw, heterogenus  
**heterosexual** *n* anghyfunryw  
**hew** *vt* naddu, torri, cymynu  
**hewer** *n* cymynwr, torrwr  
**hexa-** *prefix* chwech  
**heyday** *n* anterth  
**hiatus** *n* hiatws  
**hibernate** *vi* gaeafu  
**hiccup** *n* yr ig ♦ *vi* igian  
**hide** *vb* cuddio, celu, ymguddio  
**hide** *n* croen  
**hide-and-seek** *n* chwarae mig  
**hideous** *adj* hyll, erchyll  
**hiding place** *n* cuddfan, lloches  
**hierarchy** *n* gradd, offeiriadaeth  
**higgle** *vi* taeru, bargenna  
**high** *adj* uchel; mawr; cryf; llawn  
**highbrow** *adj* uchel-ael  
**high chair** *n* cadair ar gyfer plentyn  
**highland** *n* ucheldir  
**highly** *adv* yn fawr, yn uchel

**highness** *n* uchelder  
**high-priest** *n* archoffeiriad  
**high-spirited** *adj* calonnog, nwyfus  
**high water** *n* pen llanw  
**highway** *n* priffordd, ffordd fawr  
**highwayman** *n* lleidr penffordd  
**hijack** *vb* cipio  
**hike** *vb* crwydro ♦ *n* taith gerdded  
**hilarious** *adj* llawen, llon, siriol, hoenus  
**hill** *n* bryn, allt, gorifyny  
**hillock** *n* bryncyn, ponc, twmpath  
**hilly** *adj* bryniog, mynyddig  
**hilt** *n* carn cleddyf  
**him** *pron* ef, efe, yntau  
**hind** *adj* ôl  
**hind** *n* ewig  
**hinder** *vt* rhwystro, atal, lluddias, llesteirio  
**hindrance** *n* rhwystr, llestair, lludd  
**hinge** *n* colyn drws ♦ *vb* troi, dibynnu  
**hint** *n* awgrym ♦ *vt* awgrymu  
**hinterland** *n* cefnwlad  
**hip** *n* clun, pen uchaf y glun  
**hippie** *n* hipi  
**hips** *npl* egroes  
**hire** *vt* cyflogi, hurio, llogi ♦ *n* cyflog, hur  
**hiss** *vb* chwythu, sio, hysio, hisian  
**historian** *n* hanesydd  
**historic** *adj* hanesyddol  
**historical** *adj* hanesyddol  
**hit** *vb* taro ♦ *n* ergyd, trawiad  
**hitch** *vb* bachu ♦ *n* cwlwm; atalfa, rhwystr  
**hitchhike** *vb* bodio  
**hitchhiker** *n* bodiwr  
**hither** *adv* yma, hyd yma, tuag yma  
**hitherto** *adv* hyd yma, hyd yn hyn  
**hive** *n* cwch gwenyn. **h. off** *vb* rhannu, trosglwyddo, newid  
**hoar** *adj* llwyd, penllwyd ♦ *n* llwydrew, barrug  
**hoard** *n* cronfa, cuddfa ♦ *vt* cronni

**hoarfrost** *n* barrug, llwydrew  
